ofgem

Consumer Focus
Campaigning for a fair deal

# Gwerthwyr ynni
## ar stepen y drws neu dros y ffôn:

# yr hyn sydd
# angen i chi ei wybod



Mae newid i gyflenwr rhatach yn ffordd wych i gwsmeriaid arbed arian ar eu biliau trydan. Un o'r ffyrdd y gallwch newid yw drwy werthwyr yn cynnig cytundebau wyneb yn wyneb. Er enghraifft, ar stepen y drws.

Weithiau bydd gwerthwyr yn ffonio pobl gartref.

Mae'r rheoleiddiwr ynni Ofgem am i gwsmeriaid ddeall beth y dylent ei wneud os cânt ymweliad gan werthwr ar stepen y drws, neu alwad ffôn gan werthwr.

**Gallwch gadw'r wybodaeth hon wrth y drws neu'r ffôn a chyfeirio ati pryd bynnag y bydd gwerthwr ynni yn cysylltu â chi.**

# 1 GOFYNNWCH am gerdyn prawf adnabod

**Dylech bob amser ofyn i werthwr ar stepen y drws ddangos ei gerdyn prawf adnabod.**

Ar gyfer gwerthu ar stepen y drws neu dros y ffôn, nodwch y manylion canlynol er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol:

- Ei enw
- Y cyflenwr y mae'n gweithio iddo
- Ei fanylion cyswllt

! Cofiwch fod gwerthwyr ond yn gwerthu ar ran un cyflenwr ar y tro. Felly bydd ond yn gallu cynnig cytundeb gan y cyflenwr hwnnw.

# 2 SICRHEWCH fod gennych eich ffeithiau eich hun wrth law fel y gallwch gymharu cytundebau



Ceir gwybodaeth werthfawr ar eich biliau am faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd; faint y mae'n ei gostio i chi; ac union enw'r tariff.

Rhowch y manylion hyn i'r gwerthwr.

- Os ydych wedi bod gyda'r un cyflenwr am 12 mis neu fwy, mae'n rhaid i'ch biliau bellach ddangos y canlynol yn glir:
  - Faint o ynni a ddefnyddiwyd gennych dros y flwyddyn flaenorol
  - Faint y bydd yn ei gostio i chi dros y flwyddyn nesaf, os byddwch yn defnyddio tua'r un faint o ynni

! Cewch amcangyfrif fwy cywir a'r gymhariaeth orau â'ch cytundeb presennol drwy ddefnyddio gwybodaeth go iawn o'ch biliau ynni.

# 3 PEIDIWCH â chael eich rhoi dan bwysau i lofnodi na chytuno ar gontract

Os rhowch wybodaeth am eich defnydd o ynni i werthwr ar stepen y drws, rhaid iddo ei defnyddio wrth gyfrifo eich amcangyfrifiad a'ch cymhariaeth.

Rhaid i werthwr ar stepen y drws roi amcangyfrifiad o gost y cynnig.

Fel arfer, rhaid i werthwr ar stepen y drws hefyd ddangos i chi sut y mae'r cynnig yn cymharu â chytundeb eich cyflenwr presennol.

Dylai pob gwerthwr grynhoi elfennau pwysig y contract arfaethedig. Dylech hefyd ofyn i werthwr ar stepen y drws am gopi ysgrifenedig o'r telerau ac amodau.



(parhad)

**Cymerwch eich amser:**

- Cadarnhewch y ffeithiau ac ystyriwch y manylion
- Trafodwch y peth â rhywun arall (teulu, ffrindiau)
- Gofynnwch gwestiynau i chi eich hun, fel

  "Ai dyma'r cytundeb gorau i mi yn seiliedig ar fy nefnydd o ynni?"

  "A oes gennyf ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad?"

! Byddwch yn ymwybodol o ddatganiadau camarweiniol y gall rhai gwerthwyr eu defnyddio. Er enghraifft:

"Rydym wedi cael ein hanfon gan Ofgem, i arbed arian i chi"

"Rydym yn berchen ar y rhwydwaith cyflenwi ynni lleol, felly ni yw'r cyflenwr rhataf"

# 4 YSTYRIWCH yn ofalus cyn cytuno i newid

Os penderfynwch newid cytundeb, efallai na fyddwch yn gallu newid eich meddwl yn nes ymlaen.

**CYN** i chi lofnodi, neu gytuno i newid, gofynnwch i'r gwerthwr:

- "Am ba hyd y mae'n rhaid i mi ymrwymo i'r contract?"
- "Ydy'r contract yn rhoi hawl i mi ganslo?" (sef y cyfnod lle y gallwch ailystyried.)
- "Os felly, sut ydw i'n canslo'r contract?" (Er enghraifft, gallai'r contract nodi y gallwch ond ganslo yn ysgrifenedig o fewn amser penodol.)
- "A fydd yn rhaid i mi dalu ffi ddiddymu os ydw i am adael yn gynnar?"

! Mae cytuno i newid dros y ffôn yn cyfateb i lofnodi contract.

## Ymddygiad gwerthwyr ynni

Os teimlwch fod gwerthwr wedi ymddwyn yn amhriodol neu'ch bod yn poeni bod cytundeb ynni wedi cael ei gamwerthu i chi, cysylltwch â'r cwmni ynni y mae'n gweithio iddo neu Cyswllt Defnyddwyr am gymorth a chyngor ar 08454 04 05 06.